POBL DEWI

RHIFYN ARBENNIG EISTEDDFOD YR URDD 2010

MENTRO MEWN CENHADAETH

www.stdavidsdiocese.org.uk

I Gymru, Cyd-ddyn a Christ

Croeso i Eisteddfod yr Urdd yn Llannerch Aeron oddi wrth esgob Tyddewi y Gwir Barchedig Wyn Evans. Yma mae'r Esgob Wyn yn sôn am arwyddocad arwyddair Urdd Gobaith Cymru i'r Eisteddfod ac i'r eglwys

Urdd Gobaith Cymru: ac nid gobaith yn unig ond ffydd(londeb) a chariad hefyd. Y mae'r tair rhinwedd sylfaenol hyn i'w dirnad yn arwyddair, ym modolaeth ac yn y gwasanaeth y mae'r Urdd yn ei gynnig i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist.

Tuag at y dyfodol y mae gobaith yn ein cyfeirio, oherwydd y mae gobaith yn gysylltiedig yn annatod â'r ifanc; y mae bywyd yn anochel yn agored i ba beth bynnag sydd i ddod; ac y mae hynny yn golygu newid ac addasu, oherwydd ni fydd Cymru Fydd yr un peth a Chymru Fu; ond fe fydd yn tarddu ac yn blaguro ohoni.

Y mae'r gobaith hwnnw yn sail i'r ffyddlondeb sydd yn ein galluogi ni i dderbyn her y dyfodol, oherwydd y mae wedi ei ddaearu yn yr hyn a fu. Y mae ein hetifeddiaeth fel Cymry, a luniwyd ac a siapiwyd drwy aberth y gorffennol, yn creu ffydd yn y dyfodol a hefyd yn y Gymru sydd ohoni heddiw; ac y mae cymaint o'r gorffennol hwnnw yn ddyledus i gyfraniad Cristnogaeth a Christnogion o Oes y Saint ymlaen.

Ac y mae'r gwasanaeth y mae'r Urdd yn ei gynnig i ieuenctid Cymru a thrwy hynny i Gymru ac i gyd ddyn yn ein hatgoffa mai rhan hanfodol o'r profiad Cristnogol yw mynegi yn ymarferol mewn gwasanaeth y cariad a ddangoswyd i ni gan Dduw yn Iesu Grist. Dyma'r math o wasanaeth sydd yn ymestyn y tu hwnt i ni ein hunain, tuag at ein cyd ddyn.

Ymestyn allan mewn gwasanaeth i Grist ac i'n cyd-ddyn yw hanfod ein cenhadaeth fel Cristnogion, yn agored mewn gobaith i newidiadau'r dyfodol; yn ffyddiog yn y dyfodol a'r presennol oherwydd ein ffyddlondeb i'n hetifeddiaeth, ac yn gwasanaethu ein cyd-ddyn heddiw yn y cariad hwnnw sydd yn trosgynnu amser, oherwydd y mae'n perthyn i deyrnas dragwyddol, Duw.

Braint felly a phleser o'r mwyaf yw cael croesawu Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i Lannerch Aeron ac i Esgobaeth Tyddewi.

+Wyn Tyddewi

Golygyddion

Tessa Briggs, Siôn Brynach

Papur esgobaethol Tyddewi yw *Pobl Dewi* ac fe'i cyhoeddir tair gwaith y flwyddyn.

Mae copiau ar gael yn rhad ac am ddim, o eglwysi led-led yr esgobaeth. Mae'r golygyddion yn croesawu erthyglau o ddiddordeb – dylai'r rhain fod yn ddim hwy na 400 gair a dylid eu hanfon at Tessa Briggs, y Rheolwr Olygydd, (*tessa@ygilan.net*) i'w hystyried.

‘Yr etifeddiaeth deg’: perthynas yr Eglwys â’r Gymraeg

Yn ei gyflwyniad i’r Testament Newydd Cymraeg yn 1567, roedd yr Esgob Richard Davies yn bendant ei farn mai adfer hen ffydd y Cymry a wnaethpwyd pan sefydlwyd yr Eglwys Anglicanaidd. Roedd argyhoeddiadau crefyddol yr Eglwys newydd, meddai, yn debycach i’r rhai a arferwyd yng Nghymru cyn i Awstin ddod â Chatholigiaeth i Brydain. Pa mor wir bynnag hynny, mae’n wir bod gwreiddiau’r Eglwys yn ddwfn yn hanes y genedl. Bu cymwynas rhai o’i hoffeiriaid i’r Gymraeg yn un glodwiw. Mae’n bosib y byddai’r Gymraeg wedi darfod o’r tir oni bai am ymdrechion Esgob William Morgan i gyfieithu’r Beibl cyfan i’r Gymraeg a’i gyhoeddi ym 1588. Bu cyfnod cynnar yr Eglwys yn un cynhyrchiol yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, ac offeiriaid oedd nifer o’r rhai a fu’n llenydda – Robert Holland ac Edmwnd Prys i enwi dau yn unig.

Er hynny, nes i’r Eglwys yng Nghymru ddatgysylltu yn 1920, rhanbarth o’r Eglwys Wladol yn Lloegr oedd Cymru a chredai llawer o Gymry Cymraeg ei bod yn ‘Seisnig’ ac amherthnasol. Ym 1920, crëwyd eglwys newydd yng Nghymru trwy ddatgysylltu’r Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Lloegr gan greu talaith annibynnol o’r Cymundeb Anglicanaidd Rhyngwladol. Roedd yr Eglwys newydd â ffocws lleol Cymreig. Prin oedd ei hadnoddau oherwydd i’w hasedau gael eu dosbarthu ymhlith sefydliadau eraill Cymru, ond gyda’r penderfyniad sy’n nodweddiadol ohonom fel Cymry codwyd arian i’r eglwys ar ddau achlysur er mwyn sicrhau parhad ei gweinidogaeth. Gwerin bobl Cymru a ofalodd bod modd i’r Eglwys yng Nghymru ddal ati a pharhau i weithio’n ddygn dros holl froydd ein gwlad.

Dros y blynyddoedd magodd yr Eglwys synnwyr newydd o’i safle cenedlaethol. Yn ystod chwedegau’r ganrif ddiwethaf pan oedd protestiadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn eu hanterth, aeth yr Archesgob Gwilym O. Williams i ymweld â Dafydd Iwan yn y carchar er mwyn dangos ei gefnogaeth i’r achos. Bu’r Archesgob Gwilym yn flaengar hefyd yn y frwydr dros sefydlu sianel deledu Gymraeg.

Bellach, mae gan yr Eglwys yng Nghymru gynllun iaith cadarn sy’n mynnu lle i’r Gymraeg ym mywyd yr Eglwys. Mae’n bresennol ym mhob pentref a thref yng Nghymru ac yn gofalu bod yr iaith yn cael ei gweld a’i chlywed. Mae’n trosglwyddo’r iaith i genhedlaeth newydd hefyd trwy gydweithio ag awdurdodau lleol i sicrhau addysg Gymraeg mewn Ysgolion Eglwys. Yn ogystal mae ein Harchesgob presennol, Dr Barry Morgan, yn cadeirio mudiad *Cymru Yfory* sy’n ymgyrchu dros Senedd lawn i Gymru.

Nid yw sefyllfa’r iaith yn berffaith o fewn yr Eglwys – nid oes gwasanaethau Cymraeg mewn nifer o Eglwysi o hyd – ond nid diffyg ymroddiad sy’n gyfrifol am hynny. Er gwaethaf cyfraniad enfawr offeiriaid Cymraeg eu hiaith prin yw nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n cynnig eu hunain i’r weinidogaeth. Gobaith a gweddi’r Eglwys yw newid hyn, gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, nid lleiaf fel offeryn ar gyfer trosglwyddo’r Efengyl i holl bobl Cymru.

Adrian Morgan
Ymgynghorydd Iaith
Esgobaeth Tyddewi

Eglwys Santes Non, Llannerch Aeron

Ar lan yr afon Aeron nid nepell o'r môr mae Eglwys y Plwyf, Llannerch Aeron, eglwys wedi ei chysegru i Non, mam Dewi Sant, nawddsant Cymru, a fu yn ddisgybl ac yn genhadwr yn yr ardal. Adeiladwyd yr eglwys wreiddiol tua 1284 ger pentref hynafol, y mae ei olion i'w gweld ar faes yr Eisteddfod. Mae'r fedyddfan yn dyddio yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg, a chastiwyd cloch yr eglwys yng Nghas-gwent ym 1720. Er bod yr eglwys mor agos i Blas Llannerch Aeron, ni fu erioed yn eglwys y Plas fel y cyfryw, ond yno, yn eglwys Santes Non yr oedd teulu'r Lewisiaid yn addoli, ac fe'i claddwyd o fewn cromen yng nghefn yr eglwys. Cofnodir ar y 5ed o Orffennaf, 1796 i'r plwyfolion ac Uwchgapten Lewis o'r Plas gydariannu a goruchwylio ailadeiladu'r eglwys, ond y gwir amdani yw mai aildrefnu ac addasu'r eglwys a wnaethant gan ddilyn cynllun John Nash, y pensaer, a oedd yn gweithio ar y Plas ar y pryd. O ddilyn ei gynlluniau ef crëwyd nodweddion unigryw – fel y tŵr a'r clochdy. Eglwys Santes Non mae'n debyg yw'r unig eglwys yng Nghymru sydd â chromen plwm yn addurno'r tŵr.

Atgyweiriwyd yr eglwys o'i mewn yn 1878 drwy garedigrwydd Mrs Mary Ashby Lewis, merch yng nghyfraith yr Uwchgapten William Lewis, gwraig a gefnogodd yr eglwys i'r eithaf, gan fyw i fod yn 104 mlwydd oed, er iddi golli ei



phriod 62 mlynedd ynghynt. Cyflwynodd i'r eglwys hefyd Gwpan Cymun arian oedd yn dyddio o gyfnod Siôr III ar yr orsedd, 1803, a phlât mawr arian, o gyfnod Siôr I sy'n dyddio o 1721.

Cafodd yr eglwys wedd newydd eto ym 1952, a chysegrwyd allor newydd gan y Gwir Barchedig W. T. Havard, Esgob Tyddewi, i goffáu'r Awyr-Ringyll John Albert Jones, Pontfaen, a dalodd y pris eithaf ar y 18fed o Ragfyr, 1944 yn 23 mlwydd oed. Mae'r eglwys wedi gweld nifer o newidiadau, yr un diweddaraf yn 2007, ac mae'r olygfa hyfryd o'r eglwys yn estyn croeso i'r holl ymwelwyr ag Eisteddfod yr Urdd 2010. Dewch draw i'r eglwys i fwynhau tawelwch yr addoldy, i rannu yn y Cymun Bendigaid am hanner dydd bob dydd, a manteisio ar y cyfle i olrhain hanes Dyffryn Aeron trwy flodau. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

Y Parchedig Eileen Davies
Offeiriad Mewn Gofal

Eglwys Santes Non Llannerch Aeron

Dathlu Hanes
Dyffryn Aeron

Gŵyl Flodau

Sadwrn 29 o Fai, - 5ed Fehefin 2010
10.00 y bore tan 5.00 y prynhawn

Sul 30 o Fai, 2010 2.00 y prynhawn Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid a Bendithio'r Ŵyl Flodau

Mynediad Oedolion £3.00
Plant am ddim

Te/Coffi Bara Brith
Picau ar y Maen

Croeso Cynnes i Bawb

Plant y Fflam

Mae caneuon Sioe Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 wedi eu seilio ar record hir Edward H. Dafis "Plant y Fflam" ac yn adnabyddus tu hwnt Theatr Felinfach:-

28ain Mai 2010	8.00yh
29ain Mai 2010	2.30yp
	8.00yh
30ain Mai 2010	2.30yp
31ain Mai 2010	8.00yh
1af Mehefin 2010	8.00yh

Coleg Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan - Canolfan y Celfyddydau

3-5 Mehefin 2010, 7.30yh

Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno

DAU, UN, UN, DIM gan Manon Wyn ac YN Y TREN gan Saunders Lewis. Cyfle unigryw i weld drama newydd gan ddramodydd ifanc, cyffrous, ochr yn ochr â drama fer gan un o brif ddramodwyr y Gymraeg.

Trefnu'r Llwyfan yn Llannerch Aeron

Yn ei swyddfa a fu gynt yn ystafell ar gyfer y wraig cadw tŷ mae Paul Boland, Rheolwr Eiddo yn Llannerch Aeron ers iddo ddod i ddwylo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym 1995, yn edrych ar fap anferthol sydd ar ei ddesg.

Mae'n disgwyl o ddeutu can mil o ymwelwyr yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac mae'n esbonio fod llu o bethau wedi bod i'w hystyried wrth weithredu'r trefniadau – pethau megis goblygiadau tyllu twll pedwar metr o ddyfnder er mwyn gosod tanc carthffosiaeth a sicrhau diogelwch y dwrgwn, sy'n byw yn agos at y maes carafannau.

Yn wreiddiol roedd yr eiddo ger Aberaeron, ym mherchnogaeth William Lewes, a gomisiynodd y pensaer John Nash, yn ôl yn y 1790au i aildrefnu'r tŷ. Roedd Lewes yn gefnogwr cryf o ddiwylliant Cymru, ac mae darganfyddiad diweddar yn un o'i nodiadau yn disgrifio taith y gwnaeth ef a'i fab, John, i Gaerfyrddin, mewn tywydd stormus er mwyn ymweld â'r

Eisteddfod Genedlaethol yno ym 1822.

Bellach mae dros gant o wirfoddolwyr yn gweithio er mwyn cynnal yr ystâd. Mae lluniau o deulu'r Lewes yn addurno'r piano mawr yn yr ystafell groeso a dywed y rhelyw o ymwelwyr eu bod yn teimlo'n gartrefol wrth gerdded o gwmpas yr adeilad.

Mae pob peth yn y gegin yn taro deuddeg ac yn driw i'r cyfnod gan ail-greu'r oes o'r blaen yn berffaith, yn yr un modd ag y mae'r ardd gegin ddwy erw y tu allan, sy'n parhau yn fwrlwm o weithgarwch wrth i'r garddwyr gwirfoddol baratoi'r

tir ar gyfer twf y gwanwyn. Mae dros ddau gant o rywogaethau o gennin pedr yn Llannerch Aeron sydd, ym marn Paul Boland, yn hollol addas ar gyfer lle sy'n falch o fedru croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Nid dim ond agor drysau'r plasty bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ystod wythnos yr eisteddfod ond byddant yn darparu hefyd lu o weithgareddau yn cynnwys cneifio, godro, codi dŵr pwll, arddangosiadau coginio, sgyrsiau ynghylch adfer Llannerch Aeron ac eiddo arfordirol eraill yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd llwybrau i'w dilyn a chystadlaethau i'r bobl ifanc mewn partneriaeth ag Undeb Amaethwyr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a BBC Cymru. Yn ogystal bydd casgliad helaeth o hen beiriannau i'w gweld yn sied Geler Jones, ac i'r bywiog yn ein plith, bydd Twmpath Dawns ar y nos Lun. Yn ddiweddarach yn yr wythnos bydd taith gerdded wedi ei thywys trwy ddyffryn Aeron.

Mae Paul yn cydnabod y bydd llawer o'i hymwelwyr arferol yn anghyfarwydd â'r Eisteddfod, ond mae'n hyderus y bydd Llannerch Aeron yn darparu cartref dros dro addas ar gyfer gŵyl ieuenctid deithiol fwyaf Ewrop.

Rachael James

Mae Llannerch Aeron yn cael ei sillafu mewn nifer o ffyrdd, gyda rhai yn hepgor yr 'n' ddwbwl yn Llannerch er enghraifft. Fodd bynnag, y 'beibl' lle mae enwau llefydd, a'u sillafu, yn y cwestiwn yng Nghymru yw cyhoeddiad Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru, Rhestr o Enwau Lleoedd, sydd am rhyw reswm yn fwy adnabyddus dan ei enw Saesneg, sef A Gazeteer of Welsh Place-Names. Mae'r cyhoeddiad hwnnw yn glir taw enw'r fan lle y cynhelir Eisteddfod yr Urdd eleni yw Llannerch Aeron a dyna felly'r patrwm a fabwysiadwyd ar gyfer y cyhoeddiad hwn.